OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 Rhif 948 (Cy. 204)

# ANIFEILIAID, CYMRU

## IECHYD ANIFEILIAID

## Rheoliadau Symud Anifeiliaid Anwes yn Anfasnachol (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2022

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *6 Medi 2022* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *8 Medi 2022* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Hydref 2022* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pŵer a roddir gan Erthygl 38 o Reoliad (EU) Rhif 576/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar symud anifeiliaid anwes yn anfasnachol(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Yn unol ag Erthygl 39(7) o'r Rheoliad hwnnw(**2**), cyn gwneud y Rheoliadau hyn, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r cyrff a'r personau hynny y mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru eu bod yn cynrychioli'r buddiannau y mae'n debygol y bydd y Rheoliadau hyn yn effeithio arnynt yn sylweddol, a'r cyrff neu'r personau eraill hynny y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol.

### Enwi, cychwyn, dod i ben, cymhwyso a rhychwant

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Symud Anifeiliaid Anwes yn Anfasnachol (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2022.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Hydref 2022 a deuant i ben ar 1 Ebrill 2023.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru ac yn rhychwantu Cymru a Lloegr.

### Dirymu

**2.** Mae Rheoliadau Symud Anifeiliaid Anwes yn Anfasnachol (Diwygio) (Cymru) 2022(**3**) wedi eu dirymu o 1 Hydref 2022.

(**1**) EUR 576/2013. Diwygiwyd Erthygl 38 gan O.S. 2020/1463. Gweler y diffiniad o "appropriate authority" yn Erthygl 3A, a fewnosodwyd gan O.S. 2020/1388.
(**2**) Amnewidiwyd Erthygl 39 gan O.S. 2020/1463.
(**3**) O.S. 2022 Rhif 445 (Cy. 108).

**Diwygiadau i Reoliad (EU) Rhif 576/2013**

**3.**—(1) Mae Rheoliad (EU) Rhif 576/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar symud anifeiliaid anwes yn anfasnachol wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodiad 4 (gofynion dilysrwydd ar gyfer prawf titradiad gwrthgorff y gynddaredd)—

(a) ym mhwynt 2(b), ar y diwedd mewnosoder ", except where point 2A applies";

(b) ar ôl pwynt 2, mewnosoder—

"**2A.** This point applies where, the Welsh Ministers have administered a test which measures a level of antibody to rabies virus in serum of the animal tested equal to or greater than 0.3 EU/ml and using an enzyme linked immunosorbent assay method that meets the validation standards set out in Chapter 1.1.6 of the Manual of Diagnostic Tests and Vaccines for Terrestrial Animals 2022;(**4**)

*Lesley Griffiths*
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, un o Weinidogion Cymru

6 Medi 2022

(**4**) Pennod 1.1.6, Manual of Diagnostic Tests and Vaccines for Terrestrial Animals, Sefydliad Iechyd Anifeiliaid y Byd, 2022 (diweddarwyd 28.06.2022): https://www.woah.org/fileadmin/Home/eng/Health_standards/tahm/1.01.06_VALIDATION.pdf.

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae rheoliad 2 yn dirymu Rheoliadau Symud Anifeiliaid Anwes yn Anfasnachol (Diwygio) (Cymru) 2022 o 1 Hydref 2022.

Mae rheoliad 3 yn diwygio Rheoliad (EU) Rhif 576/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar symud anifeiliaid anwes yn anfasnachol (EUR 576/2013), er mwyn caniatáu i brawf titr gwrthgorff arall gael ei ddefnyddio ar anifeiliaid anwes sy'n dod i Gymru o'r tu allan i'r DU. Daw'r Rheoliadau hyn i ben ar 1 Ebrill 2023.

Mae copi o'r safon ddilysu y cyfeirir ati yn rheoliad 3 ar gael i'w archwilio yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.